

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 25AIN O ORFFENNAF 2022 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

1: PRESENNOL:

Y Cyngorwyr Ceri Davies (Cadeirydd), Elfed Williams, Rhian Evans, Philip Williams, Ian Evans, Geraint Jones, Bari Evans, Arwel Davies a'r Clerc.

2. CROESO I'R AELODAETH NEWYDD Y CYNGOR.

Croesawodd y Cadeirydd y tri aelod gyfethol newydd i'r cyfarfod sef, Arwel Davies, Ian Evans a Geraint Jones.

Derbyniwyd cadarnhad fod y tri aelod newydd wedi cwblhau'r ffurflenni "Datgan Derbyn Swydd" ac "Cod Ymddygiad Aelodau - Cofrestr o Ddiddordebau Aelodau - Hysbysiad o Ddiddordebau".

3. YMDDIHEURIADAU.

Dim.

4. DDATGAN DIDDORDEB.

Cynghorydd Bari Evans are item 7B isod.

5. ETHOLAETH Y CYNGOR A'R BROSES O GYFETHOL.

Derbyniwyd un cais am gyfethol i'r Cyngor a thrafodwyd ar ddechrau'r cyfarfod, sef Geraint Jones o Lanrhaeadr. Penderfynwyd yr aelodau presennol i gyfethol yr aelod newydd y Cyngor.

Mi fydd y Clerc yn cyhoeddi'r "Hysbysiad o Gyfethol" o'r ddwy sedd wag sydd yn dal yn bodoli ar y Cyngor.

6. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 27ain o Fehefin 2002 y Cyngor yn gywir.

7. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA.

A: Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn â rhoi biniau ysbwriel (yn cynnwys baw Cwn) yn yr hen lan yn Llanrhaeadr wrth yr Eglwys.

B. Ymholiad os mae'r safle hyfforddiant safle "Shorecliffe" wedi eu hestynni heb ganiatâd ym Mhrion - derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Philip Williams fod y safle hyfforddiant yn dal o fewn y tir cais cynllunio a chaniatawyd.

C. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc atgoffa Mr Rob Sheppard, perchenog Sheppard Homes i'w atgoffa fod y Cwmni wedi cytuno prynu arwydd newydd Pentre' Llanrhaeadr wrth y datblygiad newydd ym Mhentre' Llanrhaeadr.

8. PENODI IS-GADEIRYDD AM Y TYMOR 2022/2023.

Etholwyd y Cynghorydd Rhian Evans yn Is-gadeirydd y Cyngor am y tymor 2022/23.

## 9. PENODI CYNRYCHOLAETH AR FUDIADAU ERAILL:-

- A. Un Llais Cymru – Cyngorydd Philip Williams.
- B. Llywodraethwr Ysgol Pant Pastynog – Cyngorydd Ceri Davies.
- C. Llywodraethwr Ysgol Bro Cinmeirch – Geraint Jones.
- D. Bwrdd Yr Elusennau – Y Cyngorwyr Arwel Davies, Philip Williams a Ian Evans.
- E. Ystafell Gymunedol - Cyngorydd Bari Evans.

## 10. PANEL WYBODAETH YN LLANRHAEDR.

Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Elfed Williams ei fod yn disgwyl gwybodaeth i gwblhau'r trosglwyddo'r panel i'r lleoliad newydd.

## 11. GWELYAU BLODAU YN Y GYMUNED.

Dim adroddiad newydd ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

## 12. GOEDEN NADOLIG YN GYNNWYS GOLEUADAU NADOLIG YN Y GYMUNED.

Yn dilyn adroddiad Cyngorydd Geraint Jones ynglŷn â chyfarfod safle gyda Craig Wilson o'r Cyngor Sir Ddinbych yn cytuno ar leoliad y trydan i'r Goeden Nadolig y Gymuned, penderfynwyd yr Aelodau i dderbyn yr amcan bris Cyngor Sir Ddinbych am £767.59 am y gwaith trydan ac felly rhoi'r awdurdod i Craig Wilson bwrw ymlaen gyda'r gwaith.

## 13. HYSBYSFWRDD SARON.

Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngorydd Arwel Davies fod Dylan Jones, Saer Coed, wedi cwblhau'r gwaith ar yr Hysbysrwydd Saron am £210.00 yn cynnwys TAW.

## 14. MATERION CYLLID.

- A. Datganiad banc £13,170.00.
- B. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol:-
  1. Dylan Jones, Saer Coed £210.00.
  2. Ffi fisol HSBC £5.00.

## 15. CEISIADAU CYNLLUNIO MISOL AM SYLWADAU'R CYNGOR.

A: Cais Cynllunio 23/2022/0602 – Codi estyniad ochr un llawr yn Llwyn Bach, Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad.

B. Cais Cynllunio 23/2022/0.364 - Codi 3 annedd gan gynnwys gosod gwaith tri pheccyn, ffurfio mynediad i gerbydau a gwaith cysylltiedig ar dir yn Llwyn Afon, Llanrhaeadr -

Mae gan y Cyngor Cymuned bryderon am y cais fel y mae'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd. Nid yw'n ymddangos fod y cais o fewn ffiniau cynllun datblygu lleol y Cyngor. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi mwy o wybodaeth am y cynllun yn ei gyfarwydd, yn cynnwys cynlluniau draenio (SuDS).

C. Cais cynllunio 25/2022/0597 - Amrywio amod rhif 37 o gais cynllunio rhif 25/2007/0565/WF i ddiwygio'r terfynau sŵn - dim sylwadau.

## 16. GOHEBIAETH.

Er wybodaeth, derbyniwyd y Clerc gopi o e-bost oddi wrth deulu o Landegla aeth at Adran Trafnidiaeth Cyngor Sir Ddinbych yn cwyno nad oedd yna unrhyw fws o Landegla i Lanrhaeadr cyn 9.00 o'r gloch y bore gan fod eu mab yn cychwyn gwaith yn Lanrhaeadr am 9.00 o'r gloch y bore.

17. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

A: Cafwyd trafodaeth ynglŷn ar gyflymdra traffic trafilio trwy Bentre' Llanrhaeadr ar yr A525 a gofynnir i'r Clerc ysgrifennu at Ben Wilcox-Jones am gymorth am atal y cyflymder traffig.

B. Cytunodd y Clerc tynnu sylw'r Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at gyflwr y ffyrdd ym Mhrion a Saron.

C. Mae'r Cyngorydd Arwel Davies yn dal i ddisgwyl adroddiad bellach oddi wrth Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ddatblygiadau yn Eglwys Prion a sale Caer Mynydd yn Saron.

18. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Derbyniwyd lluniau gan Gyngorydd Ian Evans o'r gwely afon sych ar yr afon yn y cae rhwng Dolwar ar gyn Cymro yn Llanrhaeadr a chytunodd gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ar broblem bosib ar y safle (sef prinder dŵr).

19. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 26AIN O FEDI 2022 AM 7.30 O'R GLOCH YN GABAN Y PLWYF, YSGOL PANTPASTYNOG.